# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

## Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg

Bydd cyfarfod rhithwir o **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg** yn cael ei gynnal **Dydd Mercher, 6 Hydref 2021** am **10.00 am**

**Dolen gyswllt – Sarah Handy – Uned Busnes Y Cyngor** (07385401942)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGANIAD O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.

2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2021.

**(Tudalennau 3 - 6)**

**3. DIWEDDARIAD YNGHYLCH EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHCT**

**4. ASESIAD O STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG**

Derbyn a thrafod asesiad o gyflawniad y Cyngor yn unol â Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

**(Tudalennau 7 - 12)**

5. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

6. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi dyddiad cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, sef 8 Rhagfyr 2021.

**CYLCHREDIAD:**

**Y CYNGHORWYR**

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)
Y Cynghorydd J Rosser (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd E Stephens

**SWYDDOGION:**

Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Andrea Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

**MENTER IAITH**

Einir Sion

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**
Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Llun, 19 Gorffennaf 2021 am 10.00 am ym Rhithwir.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cynghorydd R Bevan Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd E Stephens

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

**1 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cynghorydd Rhys Lewis y datganiad buddiant personol canlynol yn ymwneud â'r agenda, ac arhosodd yn y cyfarfod pan oedd yr Aelodau'n trafod yr eitem ac yn pleidleisio arno.

- “Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Abercynon, ysgol y cyfeiriwyd ati yn adroddiad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg”.

**2 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2021 yn rhai cywir.

**3 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L. Hooper a J. Rosser.

**4 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis i'w gyfarfod cyntaf o'r Grŵp Llywio.

## 5 DRAFFT Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Darparodd Rheolwr Uned Busnes y Cyngor drosolwg o'r fframwaith adrodd ar gyfer Cynllun Strategol Drafft Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, gan ddweud wrth yr Aelodau am y cyfle i wneud sylwadau ar y cynllun drafft a'r ymgynghoriad cysylltiedig, cyn i'r Cabinet ei drafod ar 20 Gorffennaf. Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r bwriad oedd y byddai'r cynllun Drafft yn cael ei gyflwyno ymhellach i'r Grŵp Llywio, yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, cyn i'r Cabinet ei drafod, a hynny fel bod modd i'r gweithgor helpu gyda phroses benderfynu gadarn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar faterion Ysgolion yr 21ain Ganrif a Thrawsnewid fanylion pellach i'r Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad.

Yn ogystal â'r targed i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn un mewn addysg gyfrwng Gymraeg, cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cynnwys saith deilliant neu faes sy'n nodi sut mae disgwyl i Awdurdodau Lleol wella addysg Gymraeg yn eu hardal. Ein blaenoriaethau yw:

1. **Deilliant 1:** Mwy o ddisgyblion Meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
2. **Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion dosbarth Derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
3. **Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth bontio o un Cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
4. **Deilliant 4:** Mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
5. **Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
6. **Deilliant 6:** Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
7. **Deilliant 7:** Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn trosolwg manwl, cafwyd trafodaeth. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y trosolwg manwl a nododd fod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn benllanw gwaith manwl, caled gan Swyddogion, ar y cyd â gwaith ymgysylltu llwyddiannus â phartneriaid allanol. Roedd y Cadeirydd yn falch o weld y safbwynt tymor hwy a nododd y bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal dros y 10 mlynedd.

Diolchodd Aelod arall i'r swyddogion am roi diweddariad manwl a nododd, mewn perthynas â deilliant 5, ei bod hi'n bwysig bod disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned leol. Nododd yr Aelod yr her bwysig sydd o’n blaenau o ran sicrhau bod gyda'r disgyblion hyder i siarad Cymraeg mewn busnesau lleol a holodd sut roedd swyddogion yn bwriadu goresgyn yr her yma yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau'r Gymraeg wrth yr Aelodau fod y strategaeth 5 mlynedd yn rhedeg ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a phwysleisiodd fod

Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r canlyniadau redeg ochr yn ochr â'i gilydd. Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod ar hyn o bryd wrthi'n llunio cynllun 5 mlynedd newydd, a fydd yn barod erbyn tua'r Gwanwyn nesaf. Bydd y cynllun 5 mlynedd newydd yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio cyn gynted ag y bydd wedi'i gwblhau. O ran busnesau lleol a'r her o annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned leol, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd y gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos gyda meysydd gwasanaeth y Cyngor a phartneriaid yn y gymuned.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â Chynllun Strategol Drafft Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.

**6 Materion Brys**

Doedd dim mater arall i'w drafod

**7 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nododd y Cadeirydd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 19 Hydref 2021

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.17 am**

**Y Cynghorydd G Hopkins**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**6 HYDREF 2021**

**GWASANAETHAU CYMRAEG - ADRODDIAD CYNNYDD AR STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

**AWDUR:** Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yma yw rhannu manylion asesiad o gyflawniad y Cyngor mewn perthynas â Strategaeth Hybu'r Gymraeg â Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg, a hynny'n unol â Safon 146 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad a'r asesiad;

2.2 Ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth;

2.3 Cymeradwyo argymhellion yr asesiad.

## 3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Bum Mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y Sir yn unol â Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3.2 Yn rhan o Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd, rhaid i'r Cyngor:

3.2.1 gosod targed canrannol ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y bobl sy'n

siarad Cymraeg yn ein hardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw (sef, +6.8% ar hyn o bryd fel y cytunwyd yng nghyfarfod o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ym Mai 2018);

3.2.2 adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar ei wefan o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth;

3.2.3 asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu'r strategaeth ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd o ran canran y siaradwyr yn ein hardal;

3.2.4 cyhoeddi'r asesiad ar ein gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys a) nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal, a'u hoedran; a b) rhestr o'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u trefnu neu'u hariannu yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

3.3 Mae amserlen y strategaeth gyfredol wedi dod i ben, felly mae'n briodol i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg gael drosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a hynny'n unol â Safon 146 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3.5 Mae troi at sefydliad allanol sy'n arbenigo mewn cynllunio iaith i gynnal gwerthusiad annibynnol wedi rhoi cyfle i ddarparu asesiad diduedd a gwrthrychol i'r Aelodau, gan hefyd darparu argymhellion mewn perthynas â meysydd i'w datblygu ymhellach a / neu eu gwella y gall Aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg eu hystyried wrth i'r Cynllun Gweithredu nesaf gael ei lunio.

## 4. <u>CEFNDIR</u>

4.1 Datblygwyd y Strategaeth Hybu'r Gymraeg gyfredol yn 2016 ar y cyd ag ymgynghoriaeth cynllunio iaith annibynnol, Menter Iaith ac aelodau'r Fforwm Iaith, Gwasanaethau'r Cyngor ac Aelodau Etholedig.

4.2 Ymgynghorwyd â thrigolion er mwyn deall yr hyn a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau roedden nhw o'r farn yw'r rhai mwyaf pwysig o ran hybu'r iaith. Cawson nhw eu gwahodd i roi'u barn ynglŷn â pha weithgareddau fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r iaith orau. Cafodd yr ymgynghoriad yma ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2016.

4.3 Roedd adborth yr ymgynghoriad yn hanfodol i ddatblygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, sy'n canolbwyntio ar:

- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 6.8% i 29,670 erbyn 2021;
- cynyddu ei defnydd ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
- codi ymwybyddiaeth o’i phwysigrwydd yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru

4.4 Roedd y grŵp hwn wedi cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth, gyda'r nod o sicrhau strategaeth lwyddiannus, a chafodd y cynllun gweithredu ei rannu'n ddwy ran:

- Mae Rhan 1 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni naill ai drwy eu darparu'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner;

- Mae Rhan 2 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau mae aelodau'r Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni yn unol â'u cytundebau cyllido gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

4.6 Mae pob gweithgaredd a phob targed wedi'u pennu dan y themâu canlynol:

- Addysg - o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth uwchradd
- Trosglwyddo'r iaith yn y cartref
- Plant, pobl ifainc a theuluoedd
- Gweithgareddau yn y Gymuned
- Cymraeg yn y Gweithle

4.7 Ar ddechrau mis Gorffennaf, 2016, cytunodd Grŵp Llywio'r Gymraeg y Prif Swyddog y dylai Prif Swyddog gael ei nodi ar gyfer pob cam gweithredu er mwyn sicrhau atebolrwydd.

4.8 Mae'r cynnydd sy'n ymwneud â llawer o'r targedau yma yn cael ei gofnodi yn ystod proses hunanwerthuso blynyddol y Cyngor, sy'n sicrhau cysondeb yn y meysydd gwasanaeth gwahanol heb ychwanegu at eu llwyth gwaith. Mae'r wybodaeth yna'n cael ei chynnwys yn rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

4.9 Yn dilyn cymeradwyaeth y grŵp hwn ym mis Ebrill 2021, comisiynwyd Nico Cyf (sefydliad allanol sy'n arbenigo mewn cynllunio iaith) yn ystod haf 2021 i ddarparu asesiad diduedd a gwrthrychol o Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor.

## 5 YR ASESIAD

5.1 Daw'r asesiad (Atodiad 1) i'r casgliad bod y Cyngor wedi bodloni safon 145 yn llawn trwy bennu targed ar gyfer canran y siaradwyr yn yr ardal, ynghyd â manylion amlinellol o sut y byddai'r Cyngor yn anelu at gyflawni'r targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid.

5.2 Yn ogystal â hynny, trwy gynnal yr adolygiad yma mewn perthynas â'r Strategaeth 5 Mlynedd, mae'r Cyngor wedi bodloni gofyniad safon 146 ynghylch asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth ac wedi bodloni targedau penodol.

5.3 Mae'r asesiad hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer y gwaith o lunio strategaeth 5 mlynedd ddiwygiedig ac uchelgeisiol a Chynllun Gweithredu a fydd yn cael eu trafod gan y Grŵp Llywio maes o law cyn ei gyhoeddi.

## 6 GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH/DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

6.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth nac Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol at ddibenion yr adroddiad hwn.

## 7 GOBLYGIADAU IAITH GYMRAEG

7.1 Mae'r adroddiad yma er gwybodaeth / yn rhan o adolygiad o Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2016-2021 yn unol â safon 146

7.2 Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gwblhau yn rhan o'r broses o lunio strategaeth newydd yn unol â safonau 88, 89 a 90. Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar hyn o bryd (1-30 Medi 2021) er mwyn helpu i lunio'r strategaeth newydd a'r asesiad effaith.

## 8 YMGYNGHORI

8.1 Cafodd proses ymgynghori ei chynnal cyn i Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu gael eu cymeradwyo yn 2017.

## 9 GOBLYGIADAU ARIANNOL

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, fe fydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.

9.2 Gallai peidio â chydymffurfio â Safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

## 10 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL *NEU* DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio maes y gwaith yma.

## 11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

11.2 Mae Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg gan amlinellu'r gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud i gydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir.

11.3 Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o Nod 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

## 12 CASGLIAD

12.1 Roedd blaenoriaethau Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor yn cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol ac yn seiliedig ar ymchwil ac ymgynghori. Roedd y targedau'n adlewyrchiad naturiol o anghenion penodol y boblogaeth ac yn tynnu sylw at ystyriaeth o'r ddarpariaeth gyfredol a'r cyfyngiadau ariannol ac ymarferol presennol.

12.2 Dylid dathlu cryfderau'r Strategaeth, a rhannu arfer da. Mae'r strategaeth wedi'i llywio gan weledigaeth wedi'i theilwra sy'n cael ei chefnogi gan brif swyddogion a staff, ynghyd â phroses atebolrwydd fewnol gadarn sydd hefyd yn cynnwys elfen o graffu allanol gan bartneriaid allweddol drwy'r Fforwm Iaith.

12.3 Mae'r asesiad yn nodi bod y strategaeth yn cynnig nifer o gyfleoedd cyffrous i gryfhau gwaith y Cyngor, ac mae'r argymhellion yn yr adolygiad (Atodiad 1) yn ceisio tynnu sylw at y cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Tudalen wag